Trefn yr oedfa

Galwad i addoli a gair o groeso
Gwenan Creunant

Emyn
Elim, Llanddeiniol
(Tôn: Newyddion Braf)

Newyddion braf a ddaeth i'n bro,
hwy haeddent gael eu dwyn ar go',
mae'r Iesu wedi cario'r dydd,
caiff carcharorion fynd yn rhydd.

O llawenhawn, cydlawenhawn
am ddyfod Iesu Grist i'n byd;
efe yw'r Gair, Duw cariad yw,
efe yw'r gobaith inni i gyd:
Halelwia! Llawenhawn, cydlawenhawn
am ddyfod Iesu Grist i'n byd.

Mae Iesu Grist o'n hochor ni,
fe gollodd ef ei waed yn lli;
trwy rinwedd hwn fe'n dwg yn iach
i'r ochor draw 'mhen gronyn bach.

Wel, f'enaid, bellach cod dy ben,
mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd wen;
mae'n holl elynion ni yn awr
mewn cadwyn gan y Brenin mawr.

John Dafydd
Cyt. Elfed Lewys

Darlleniad: Mathew 16 [13-20]
Rhydlwyd, Lledrod

Comisiynu ac Ymateb
Eleri Pierce Barder

Gweddïau
Dros Gymru – Seion, Aberystwyth
Dros yr Eglwysi a'r Ysgolion Sul – Morfa, Aberystwyth
Dros Eleri a'r Fenter – Bethel, Talybont

Neges
Dr Owain Edwards, Coleg y Bala

Emyn
Penllwyn, Capel Bangor
(Tôn: Cerddwn Ymlaen)

Cerddwn ymlaen i'r yfory,
chwifiwn faner yn y gwynt,
seiniwn glod am a gafwyd,
am fendithion dyddiau gynt;
am y rhai fu yma'n sefyll
ac yn brwydro dros y gwir
seiniwn glod a cherddwn ymlaen.

Fe ddaeth ddoe â'i siâr o ofid
a daeth pryder yn ei dro,
gwelwyd hefyd haul yn gwenu
a llawenydd yn ein bro:
ond drwy'r lleddf a'r llon fe welwyd
llaw yr Iôr yn llywio'n bywyd
i'r yfory sy'n obaith gwiw.

Mae'r yfory heb ei brofi,
mae ei stôr o hyd dan sêl;
mae pob dyfais mae am gynnig
a phob profiad o dan gêl:
ond wrth fentro 'mlaen cei flasu
gwir anturiaeth, ac fe weli
fod yfory yn obaith gwiw.

Peter M. Thomas

Y Fendith
Y Parch Judith Morris

Cyfeiliwyd i'r emynau gan ieuenctid yr eglwysi
o dan ofal Llio Penri

Derbynnir offrwm tuag at ***beibl.net*** *yn ystod yr ail emyn*

Croeso i bawb ymuno am sgwrs a phaned
yn Festri Bethel yn dilyn y gwasanaeth